

No.

## PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R. Crowley, V.P. Driscoll, R. Nugent-Finn K.F. McCaffer, A. Moore, J.M. Norman a M.R. Wilkinson.

### 671 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

### 672 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

### 673 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 674 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

### 675 ADRODDIAD AR GYFER NODI GYRWYR Z (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Diben yr adroddiad oedd nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd mewn perthynas ag ymchwiliad gan yr Heddlu.

Dechreuodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu drwy ddweud wrth y Pwyllgor fod Z wedi bod â thrwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni/Cerbydau Llogi Preifat er 2017.

Ar 1 Tachwedd, 2019 hysbyswyd y Cyngor am arestiad Z mewn cysylltiad â honiadau o gael arian yn dwyllodrus gan fenyw 91 oed drwy ddyngwared aelod o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Cafodd y Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r

No.

Cyhoedd wybod am y mater ar 14 Tachwedd, 2019. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a phenderfynodd ei fod yn parhau'n berson addas a phriodol i fod â thrwyddedau gyrru ond y dylai roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw gynnydd gydag achos yr Heddlu.

Roedd yr achos wedi cymryd dwy flynedd i ddod i gasgliad, gyda Z yn cael ei ryddfarnu o'r drosedd o wyngalchu arian. Ar adeg paratoi'r adroddiad, roedd Z wedi methu â rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad yr ymchwiliad.

Gofynnodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu, gan fod Z wedi'i ryddfarnu o'r drosedd, fod y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid rhoi unrhyw sanctsiwn mewn perthynas ag ymddygiad Z.

Nid oedd Z yn gallu mynychu cyfarfod y Pwyllgor ond anfonodd neges at y Pwyllgor yn nodi ei reswm dros beidio â rhoi gwybod i'r Cyngor am ei ryddfarnu sef ei falchder a'i ymdeimlad o ryddhad ar adeg cael ei ryddfarnu o'r drosedd.

Yn dilyn hyn, trafododd y Pwyllgor y mater yn breifat.

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, gwahoddwyd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yn ôl i'r cyfarfod i glywed penderfyniad y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl sylwadau

PENDERFYNWYD - BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a llythyr yn cael ei anfon at Z yn eu hatgoffa o'u dyletswyddau o dan eu Trwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

676 GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR PRESENNOL ES (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Diben yr adroddiad oedd ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru mewn perthynas ag euogfarn ddiweddar a phenderfynu a oedd ES yn berson addas a phriodol i fod â Thrwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Bro Morgannwg.

Dechreuodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu drwy ddweud wrth y Pwyllgor fod ES wedi bod â thrwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni/Cerbydau Llogi Preifat er 2016. Roedd hefyd yn berchen ar Gerbyd Llogi Preifat.

Ar 1 Tachwedd, 2019 hysbyswyd y Cyngor am arestiad ES mewn cysylltiad â honiadau o gael arian yn dwyllodrus gan fenyw 91 oed drwy ddynwared aelod o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

No.

Rhyddhawyd ES wrth i ymchwiliadau pellach gael eu cynnal. Roedd yr hysbysiad yn cynnwys lliniaru ar ran ES mewn perthynas â'i amgylchiadau personol a'i ymddygiad da cyffredinol, ynghyd â nodyn datgelu bod y wybodaeth wedi'i rhyddhau i'r Cyngor oherwydd bod rôl gyrrwr tacsî yn caniatáu cludo teithwyr agored i niwed.

Cafodd y Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd wybod am y mater ar 14 Tachwedd, 2019. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a phenderfynodd fod ES yn parhau'n berson addas a phriodol i fod â thrwyddedau gyrru ond y dylai roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw gynnydd gydag achos yr Heddlu.

Ar 12 Tachwedd, 2021, cafodd y Cyngor wybod am adroddiad yn Wales Online a oedd yn nodi bod ES wedi'i gael yn euog o drosedd yn cynnwys menyw 91 oed. Roedd y drosedd yn cynnwys gwyngalchu arian a gafwyd yn dwyllodrus gan bobl eraill na chredwyd eu bod yn yrwyr tacsîs.

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, roedd ES wedi methu â rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad yr ymchwiliad.

Roedd yr amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gyrru cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat Bro Morgannwg yn ei gwneud yn ofynnol i yrwr fod yn gyfrifol yn bersonol am ddatgan unrhyw euogfarnau neu faterion eraill a ddigwyddodd ganol cyfnod trwydded.

Yna, gwahoddodd y Cadeirydd ES i roi sylwadau llafar ynghylch y digwyddiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad.

I ddechrau, ceisiodd ES leihau ei ymwneud â'r achos gan awgrymu bod ei ble euog yn ganlyniad i gyngor cyfreithiol a roddwyd iddo a'i fod ond wedi pledio'n euog i osgoi dedfryd o garchar. Pan bwysodd yr Aelodau ar ES o ran y mater hwn, derbyniodd ES ei fod yn euog o'r drosedd. Fodd bynnag, ni ddangosodd ES unrhyw edifeirwch am ei weithredoedd na'i ymwneud. Yn ogystal, derbyniodd ES ei fod yn gwybod yr oedd angen iddo hysbysu'r Cyngor am ganlyniad yr achosion troseddol nad oedd wedi'i wneud. Dywedodd ES ei fod wedi tybio y byddai'r Heddlu wedi hysbysu'r Cyngor o'r euogfarn.

Yn dilyn hyn, trafodd y Pwyllgor y mater yn breifat. Nid oedd yr Aelodau'n fodlon y gallai ES weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddo wrth weithredu fel gyrrwr tacsî ac ni allen nhw fod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn perygl. Byddai rhan annatod o rôl ES yn golygu trin arian a chyfrif yr arian hwnnw'n briodol i aelodau o'r cyhoedd. Gan ystyried y prawf o ran addasrwydd a phriodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teuluoedd eu hunain mewn tacsî gyda'r unigolyn a mynegon nhw bryderon difrifol am yr unigolyn hwn yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn ei rôl fel gyrrwr tacsî. Nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod ES yn parhau'n berson addas a phriodol i fod â Thrwydded Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Cyngor Bro Morgannwg.

No.

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, gwahoddwyd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yn ôl i'r cyfarfod i glywed penderfyniad y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl sylwadau

PENDERFYNWYD - BOD Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Bro Morgannwg ES yn cael ei dirymu ar unwaith.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â'r Canllawiau a fabwysiadwyd ar Bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedigion yn y Fasnach Hacni a Hurio Preifat, nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod ES yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cyngor Bro Morgannwg. Nid oedd yr Aelodau ychwaith yn fodlon y gallai ES weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddynt wrth weithredu fel gyrrwr tacsï ac na ellid bod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn niwed. Gan ystyried y prawf o ran ffitrwydd a priodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teulu eu hunain mewn tacsï gydag ES a mynegon nhw bryderon difrifol am ES yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn eu rôl fel gyrrwr tacsï. Roedd hyn oherwydd bod ES wedi bod yn rhan o achos troseddol difrifol a oedd wedi cynnwys anonestrwydd a chamfanteisio ar ddioddefwyr agored i niwed.

Dywedwyd wrth ES fod ganddynt hawl i apelio i Lys Ynadon Caerdydd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn 21 diwrnod ac y dylent ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch eu hawliau cyfreithiol a/neu eu cyfrifoldebau.

#### 677 GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRRWR PRESENNOL KS (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Diben yr adroddiad oedd ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru mewn perthynas ag euogfarn ddiweddar a phenderfynu a oedd KS yn berson addas a phriodol i fod â Thrwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Bro Morgannwg.

Roedd KS wedi bod â thrwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni/Cerbydau Llogi Preifat ers tua 2015/2016. Roedd hefyd yn berchen ar Gerbyd Llogi Preifat.

Ar 12 Tachwedd, 2021, cafodd y Cyngor wybod am adroddiad yn Wales Online a oedd yn nodi bod KS wedi'i gael yn euog o drosedd yn cynnwys menyw 91 oed.

Roedd y drosedd, y barnwyd KS yn euog o'i gyflawni, yn cynnwys gwyngalchu arian a gafwyd yn dwyllodrus gan bobl eraill na chredwyd eu bod yn yrwr tacsï.

Roedd y Cyngor eisoes yn ymwybodol o ymchwiliad yr Heddlu a bod dau yrwr tacsï arall wedi bod yn rhan o'r drosedd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd am y ddau yrwr hyn ym mis Tachwedd 2019 pan ddechreuodd yr

No.

ymchwiliad. Bryd hynny, ni chysylltwyd KS â'r drosedd. Fodd bynnag, ni ddatgelodd ei arestiad dilynol. Dywedodd Heddlu De Cymru i hyn ddigwydd ar 28 Mehefin, 2021.

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid oedd KS wedi rhoi gwybod i'r Cyngor o hyd am y gollfarn o ran peidio â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth drwyddedau gyrru cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat Bro Morgannwg.

Rhybuddiwyd KS yn flaenorol mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd ac achosion o dorri amodau trwydded gan Swyddogion Trwyddedu a'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd rhwng 2018-2020 (sef dau rybudd gan swyddogion ac un rhybudd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'i ymddygiad).

Yna, gwahoddodd y Cadeirydd KS i roi sylwadau llafar ynghylch y digwyddiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad.

I ddechrau, ceisiodd KS leihau ei ymwneud â'r achos gan awgrymu bod ei ble euog yn ganlyniad i gyngor cyfreithiol a roddwyd iddo a'i fod ond wedi pledio'n euog i osgoi dedfryd o garchar. Ni ddangosodd KS unrhyw edifeirwch am ei weithredoedd na'i ymwneud. Yn ogystal, derbyniodd KS ei fod yn gwybod yr oedd angen iddo hysbysu'r Cyngor am ganlyniad yr achosion troseddol nad oedd wedi'i wneud. Dywedodd KS ei fod wedi tybio y byddai'r Heddlu neu'r Llysoedd wedi hysbysu'r Cyngor o'r euogfarn.

Yn dilyn hyn, trafododd y Pwyllgor y mater yn breifat. Nid oedd yr Aelodau'n fodlon y gallai KS weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddo wrth weithredu fel gyrrwr tacsï ac ni allen nhw fod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn perygl. Byddai rhan annatod o rôl KS yn golygu trin arian a chyfrif yr arian hwnnw'n briodol i aelodau o'r cyhoedd. Gan ystyried y prawf o ran addasrwydd a phriodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teuluoedd eu hunain mewn tacsï gyda KS a mynegon nhw bryderon difrifol am KS yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn ei rôl fel gyrrwr tacsï. Felly, nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod KS yn parhau'n berson addas a phriodol i fod â Thrwydded Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Cyngor Bro Morgannwg.

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, gwahoddwyd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yn ôl i'r cyfarfod i glywed penderfyniad y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl sylwadau

**PENDERFYNWYD - BOD Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Bro Morgannwg KS yn cael ei dirymu ar unwaith.**

No.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â'r Canllawiau a fabwysiadwyd ar Bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedigion yn y Fasnach Hacni a Hurio Preifat, nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod KS yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cyngor Bro Morgannwg. Nid oedd yr Aelodau ychwaith yn fodlon y gallai KS weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddynt wrth weithredu fel gyrrwr tacsï ac na ellid bod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn niwed. Gan ystyried y prawf o ran ffitrwydd a priodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teulu eu hunain mewn tacsï gydag KS a mynegon nhw bryderon difrifol am KS yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn eu rôl fel gyrrwr tacsï. Roedd hyn oherwydd bod KS wedi bod yn rhan o achos troseddol difrifol a oedd wedi cynnwys anonestrwydd a chamfanteisio ar ddioddefwyr agored i niwed.

Dywedwyd wrth KS fod ganddynt hawl i apelio i Lys Ynadon Caerdydd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn 21 diwrnod ac y dylent ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch eu hawliau cyfreithiol a/neu eu cyfrifoldebau.